**BBC Audience Council Wales**
**Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC**

**<u>CADARNHAWYD</u>**

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGWESTY GELLI FAWR, PONTFAEN, SIR BENFRO DDYDD GWENER 5 TACHWEDD 2010

**Yn bresennol**:

**Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:**
Elan Closs Stephens (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru)
Sangeet Bhullar,
Nicola Branson,
Andy Carter,
Ioan Evans,
Robert Humphreys,
Pamela Hunt.
Aled Jones-Griffith,
Sharon Mainwaring,
Teresa Rees.

**Staff BBC Cymru:**
Nid oedd Aelodau Bwrdd Rheoli BBC Cymru yn bresennol yn y cyfarfod hwn gan fod Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru, a oedd newydd ei phenodi, yn dymuno cael trafodaeth breifat ag aelodau CCC

**Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC, staff:**
Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru,
Siôn Brynach, Cynghorydd Atebolrwydd, Cymru.
Siân Pitman, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cymru.

## 70. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Alex McMillan,
Arun Midha.

## 71. SESIWN RAGARWEINIOL Â'R YMDDIRIEDOLWR CENEDLAETHOL NEWYDD

Estynnodd aelodau'r Cyngor groeso cynnes i'r cyfarfod i Ymddiriedolwr Cenedlaethol newydd Cymru. Rhoddodd amlinelliad o'i chefndir a'i phrofiad ym myd darlledu a soniodd am ei hawydd i gydweithredu â Chyngor Cynulleidfa Cymru i fod y llais effeithiol ar ran cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru. Eglurodd fod darlledu'n aml yn gallu bod yn ddrych o fywyd y genedl ac o ganlyniad mae'r Cyngor Cynulleidfa wedi cyflawni swyddogaeth bwysig.

Yn dilyn gwahoddiad gan yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol, aeth aelodau'r Cyngor Cynulleidfa ati i gyflwyno'u hunain gan amlinellu rhai o'u pryderon a'u gobeithion ar gyfer datblygiad a chyfeiriad y Cyngor Cynulleidfa a'i waith yn y dyfodol fel llais cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru:

- Pwysleisiodd y Cyngor unwaith eto pa mor bwysig ydoedd i'r Cyngor edrych ar ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd Cymru.

- Dywedwyd y byddai dull mwy systematig o ddefnyddio data meintiol cynulleidfaoedd yn ogystal â'r wybodaeth ansoddol ragorol a gesglir yn sgil gweithgarwch allgyrraedd presennol y Cyngor yn ddefnyddiol.
- Roedd yn bwysig bod y Cyngor yn dod o hyd i ffordd i ystyried sut yr oedd cynulleidfaoedd yng Nghymru'n defnyddio gwasanaethau Rhwydwaith.
- Mynegodd y Cyngor ei awydd i gefnogi'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol yn ei rôl allweddol yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Mynegodd y Cyngor ei ofnau ei bod yn ymddangos fod darlledu gwasanaeth cyhoeddus o dan fygythiad cynyddol. Un elfen yn unig o'r pryder hwn oedd y sefyllfa bresennol o ran S4C.
- Pwysleisiodd y Cyngor pa mor bwysig ydoedd fod Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru a'r Cyngor ei hun yn codi eu proffiliau yng Nghymru – fel y bydd cynulleidfaoedd yn fwy ymwybodol o fodolaeth a rôl y Cyngor a'i swyddogaeth fel cynghorydd i Ymddiriedolaeth y BBC. Awgrymodd fod ei gyfraniad deallus at y ddadl ddiweddar ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn fuddiol iawn ar ran cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru.
- Roedd dosbarthu'n fater pwysig dros ben o safbwynt rhaglenni eithriedig y Cenhedloedd ar BBC One HD, a dosbarthiad radio drwy DAB a FM. Roedd o'r farn ei bod yn hanfodol bod y BBC ar lefel y DU yn rhoi sylw ar unwaith i fater Radio Wales ar FM.
- Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol pe byddai'r Cynghorau Cynulleidfa'n fwy ymwybodol o waith ei gilydd.
- Pwysleisiwyd pa mor fuddiol oedd cwrdd â rheolwyr y BBC yn ystod cyfarfodydd o'r Cyngor oherwydd y cyfleoedd i ddysgu a gyfyd yn eu sgil. Roedd gwybodaeth am y BBC yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i ffurfio barn ar rai o'r materion a wynebai'r Gorfforaeth a chynulleidfaoedd y BBC.
- Un achos pryder parhaus, fodd bynnag, oedd yr ymdeimlad nad oedd y BBC yn llwyddo i roi sylw priodol i'r modd yr oedd Cymru'n portreadu ei hun iddi ei hun yn Gymraeg a Saesneg. Yr ofn yw y gallai setliad newydd Ffi'r Drwydded beryglu hyn ymhellach.

## 72. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI

Cymeradwywyd y Cofnodion fel cofnod cyflawn a chywir o'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 73. ADRODDIAD AR DDIGWYDDIAD YMGYSYLLTU Â'R GYNULLEIDFA A GYNHALIWYD Y NOSON GYNT

Y farn oedd bod digwyddiad estyn allan y noson gynt wedi bod yn llwyddiant mawr gyda llawer o sylwadau defnyddiol wedi'u gwneud a fyddai o fudd i'r Adolygiad Gwasanaeth presennol o Radio Cymru a Radio Wales.

Roedd y materion a godwyd yn y digwyddiad yn cynnwys y pryderon sydd wedi'u gwyntyllu eisoes ynghylch y sylw a roddir i'r DU gyfan ar y Newyddion Rhwydwaith. Roedd rhai oedd yn bresennol wedi mynegi'r farn bod prif raglenni Newyddion Rhwydwaith y teledu, er eu bod yn rhoi mwy o sylw i faterion a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig nag yn y gorffennol, yn rhoi sylw cynyddol i newyddion o Loegr ar draul cenhedloedd eraill y DU.

Dywedodd y Cyngor fod nifer ac amrywiaeth y digwyddiadau allgyrraedd a drefnwyd gan y Cyngor yn golygu bod modd sylwi ar negeseuon a'i bod yn bwysig hefyd bod yr holl Gynghorau Cynulleidfa'n cyflwyno negeseuon cyson i'r Ymddiriedolaeth ar faterion penodol. Bydd adroddiad ar y digwyddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 74. ADRODDIADAU

**Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol**

Cyflwynodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol adroddiad i'r Cyngor ar rai o'r prif faterion a oedd wedi codi yn ystod y pum diwrnod blaenorol, ers iddi ddechrau yn ei swydd. Yr oedd yn amlwg bod y BBC a setliad Ffi'r Drwydded wedi bod yn faterion o bwys yn ddiweddar. Yr oedd yn amlwg y byddai gwasgfa sylweddol ar gyllid yn y BBC yn ystod y blynyddoedd nesaf, ond roedd yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC yn falch bod yr incwm hyd at 2017 bellach wedi'i bennu.

Yr oedd cwestiynau i'w hateb o hyd o ran World Service y BBC. Yr oedd hefyd nifer o faterion heb eu datrys yn ymwneud â'r model ar gyfer llywodraethu S4C yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Cwestiwn pwysig sy'n gysylltiedig â hyn yw'r ddarpariaeth deledu ar gyfer Cymru yn Gymraeg a Saesneg. Awgrymodd aelodau'r Cyngor fod rhai cyfranwyr at y ddadl ddiweddar ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn anonest wrth geisio awgrymu bod y cyllidebau ar gyfer darpariaeth deledu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn un gyllideb ar gyfer un gwasanaeth, er eu bod mewn gwirionedd yn ddwy gyllideb ar wahân ar gyfer dwy ddarpariaeth ar gyfer dwy gynulleidfa wahanol. Dywedodd y Cyngor ei bod yn bwysig bod y BBC yn ateb yr ensyniadau hyn pan mae hynny'n bosibl. Mynegwyd pryder fod y lefel gyllido bresennol ar gyfer cynnwys teledu yn Saesneg yn is na'r hyn sydd ei angen i greu a chynnal màs critigol. Cydnabu hefyd fod cynnwys teledu yn y Gymraeg wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol yn Setliad Ffi'r Drwydded. Yr oedd cyfle i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith elwa ar y cyfleoedd a godai yn sgil cydweithredu aml-blatfform.

**Adroddiad y Bwrdd**

Nodwyd adroddiad Bwrdd Rheoli BBC Cymru.

## 74. ADOLYGIAD GWASANAETH YR YMDDIRIEDOLAETH O RADIO WALES A RADIO CYMRU

Cytunwyd y dylid symud cyfarfod Ionawr 2011 Cyngor Cynulleidfa Cymru o 14 Ionawr i 7 Ionawr. Dylai aelodau Bwrdd Gweithredol y BBC sydd eisoes wedi'u gwahodd i gyfarfodydd Rhagfyr 2010 ac Ionawr 2011 eu gohirio pan yn bosibl i sicrhau bod modd neilltuo cymaint â phosibl o amser i alluogi'r Cyngor ystyried ei ymateb i'r Adolygiad Gwasanaeth hwn. Atgoffwyd aelodau am y gwahoddiad yr oeddent wedi'i dderbyn gan y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd i anfon unrhyw awgrymiadau ato am sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ofyn am eu hymateb, i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cwrdd â golygyddion Radio Wales a Radio Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i'w helpu i lunio'i ymateb i'r adolygiad gwasanaeth cyfredol. Cynhelir trafodaeth lawn ar ei ymateb drafft yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

## 75. BLAENORIAETHAU I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Gofynnodd y Cyngor am eglurhad gan Uned yr Ymddiriedolaeth ar y modd y mae mesuriadau RQIV yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun rhaglenni plant. Daeth hyn yn fater o gryn bwys yng Nghymru'n ddiweddar oherwydd y pryder mawr ynghylch y modd y mae rhai o ffigurau gwylio S4C wedi cael eu camddehongli. Mae ffigurau gwylio rhaglenni plant yn isel, ac un rheswm am hyn yw nad yw BARB yn mesur cynulleidfaoedd o dan 4 oed.

Mae'r Cyngor yn awyddus, yn sgil setliad diweddar Ffi'r Drwydded, y dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod modd i'r gyllideb ar gyfer BBC Cymru roi sylw digonol i anghenion pob cynulleidfa yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd y cyhoeddiad diweddar ar Setliad Ffi'r Drwydded wedi ehangu a dwysau'r ddadl ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac roedd y Cyngor yn teimlo y byddai'r ddadl yn cael ei chyfoethogi gan gyfraniadau gan yr Ymddiriedolaeth a fyddai'n rhoi sylw i anghenion cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru.

**76. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffwyd y Cyngor y cynhelir ei gyfarfod nesaf ddydd Gwener 3 Rhagfyr 2010 yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd, gyda digwyddiad estyn allan dan nawdd y Cyngor ym Mhontypridd y noson gynt.

***